

No.

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 24 Hydref, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe a N.J. Wood; and M. Evans (Aelod Lleyg)

384 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

385 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi, 2022 fel cofnod cywir.

386 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

387 DIWEDDARIAD BLYNYDDOL TREFNIADAU DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (CYF) -

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan gyfarfod 4 Hydref 2022 o'r Pwyllgor Craffu ar Fyw'n lach a Gofal Cymdeithasol i'r pwyllgor gan y rheolwr gweithredol, Diogelu a Chanlyniadau Gwasanaethau.

Dywedwyd y rhagwelwyd y byddai Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid wedi disodli'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yng Nghymru a Lloegr ym mis Ebrill 2022. Fodd bynnag, roedd y broses ymgynghori ar gyfer y codau ymarfer cysylltiedig wedi'i gohirio, ac felly, ni chyflawnwyd y dyddiad gweithredu ac roedd yn dal i gael ei bennu gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Roedd Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn cynrychioli newid sylweddol i'r gyfraith ynghylch gofal a thriniaeth pobl dros 16 oed nad oedd ganddynt y galluoedd i gydsynio i ofal neu driniaeth a oedd yn eu hamddifadu o'u rhyddid. Byddai angen

No.

i weithwyr ar draws y system gofal cymdeithasol i oedolion baratoi ar gyfer y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid: byddai'r newidiadau'n effeithio ar waith uniongyrchol gydag oedolion, ac mewn rhai achosion pobl ifanc, a wneir gan ymarferwyr amlasiantaeth a byddai angen systemau a ffyrdd newydd o weithio ar bob lefel ar draws sefydliadau.

Wrth baratoi'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd, bu'r cyngor yn llwyddiannus mewn ceisiadau am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o geisiadau. Roedd tîm prosiect bach wedi'i roi at ei gilydd ac roedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran lleihau ôl-groniad ceisiadau'r cyngor. Y nifer presennol o geisiadau yn benodol ar gyfer ardal Bro Morgannwg sy'n aros i gael eu hystyried oedd 75, i lawr o 322 ar gyfer 2020/21, a'r amser aros hiraf o unrhyw gais yn dyddio o fis Mehefin 2022.

Dywedodd y cadeirydd, Mr G. Chapman, fod capasiti tîm y prosiect wedi'i adeiladu oherwydd arian grant gan Lywodraeth Cymru, ond o ystyried yr heriau ariannol, roedd yn debygol y byddai'r grantiau'n cael eu tynnu'n ôl, a arweiniodd at bryder y gallai nifer yr asesiadau sy'n weddill godi eto. Mewn ymateb, cytunodd y rheolwr gweithredol na allai'r cyngor ddibynnu ar y grant yn barhaus. Fodd bynnag, roedd yn bwysig cydnabod bod fframwaith newydd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn symleiddio'r broses, a fyddai'n dod yn rhan o gyfrifoldebau ymarferwyr unigol yn hytrach na thîm penodedig. Hyd nes y daw'r codau ymarfer drwedd, roedd gwerthfawrogiad y gallai'r galw fod yn fwy na'r adnoddau, a dyna pam fod y cyngor yn adolygu'r sefyllfa yn barhaus. Yn y dyfodol, byddai'r cyngor yn edrych ar y cyllidebau sylfaenol a lle'r oedd angen i'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid gael eu lleoli.

Mewn ymateb i'r cwestiwn a oedd gan weithwyr cymdeithasol y gallu i ymgymryd â'r cyfrifoldeb ychwanegol, dywedodd y rheolwr gweithredol fod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i uwchraddio ymarferwyr o ran y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r gofynion sy'n ymwneud â hynny. Roedd hynny'n golygu, pan gyflwynwyd fframwaith newydd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, y byddai gan ymarferwyr y sgiliau angenrheidiol. Roedd cyllid ychwanegol hefyd yn dod gan Lywodraeth Cymru o ran hyfforddi'r gweithlu.

O ran gyfradd yr asesiadau a wrthodwyd, dywedodd y rheolwr gweithredol y byddai'r rhain yn cael eu hanfon ar ôl y cyfarfod drwy e-bost.

Wedi hynny, yr oedd,

PENDERFYNWYD – BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi, gyda'r cais canlynol:- pe bai ôl-groniad asesiad Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) yn codi, bod adroddiad yn dod gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn modd amserol i ganiatáu i'r Pwyllgor ystyried y mater a'r camau adfer a gynigir neu a gynhaliwyd.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

388 ADRODDIAD HUNANASESU BLYNYDDOL DRAFFT TERFYNOL
CYNGOR BRO MORGANNWG 2021/22 (CYF) -

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod 20 Hydref 2022 y Cabinet i'r pwyllgor gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol.

Roedd Hunanasesiad Blynyddol Drafft Terfynol Bro Morgannwg (Atodiad A) yn ddatganiad sefyllfa ar berfformiad y cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf o ran cyflawni blaenoriaethau ei gynllun cyflawni blynyddol yn unol ag amcanion llesiant y cynllun corfforaethol. Y bwriad oedd rhoi disgrifiad gonest a chytbwys o gyflawniadau a heriau'r cyngor a nodi meysydd lle'r oedd angen gwneud cynnydd pellach. Byddai'r wybodaeth yn Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Drafft Terfynol Bro Morgannwg yn cael ei defnyddio i lywio datblygiad cynllun cyflawni blynyddol y cyngor ar gyfer 2023/24 a chynlluniau gwasanaeth cysylltiedig ar gyfer yr un cyfnod.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu bod crynodeb o ganfyddiadau'r ymgynghoriad (ynghlwm yn Atodiad B) yn cyflwyno darlun cymysg. Pan ofynnwyd a oedd y cyngor wedi cyflawni'r amcanion a osodwyd yn y flwyddyn flaenorol, ymatebodd y cyhoedd yn gyffredinol yn fwy cadarnhaol i'r themâu 'darparu gofal a chymorth' a 'gwella seilwaith'. Roeddent leiaf cadarnhaol ynghylch 'ymateb i'r her newid hinsawdd – Prosiect Sero' a'r 'argyfwng costau byw'. Roedd ymatebwyr staff y cyngor ar eu mwyaf cadarnhaol ynghylch 'darparu gofal a chymorth', gyda 'Prosiect Sero' a 'cynnwys ein cymunedau' yn cael yr ymatebion lleiaf cadarnhaol.

Derbyniodd yr ymgynghoriad 125 o ymatebion unigol i'r arolwg, ac er bod tua 2.5 mil o bobl wedi edrych ar gyfathrebiadau ac animeiddiadau cyfryngau cymdeithasol, derbyniodd y cyngor 30 o sylwadau ar draws yr amrywiol animeiddiadau. Derbyniwyd 20 ymateb pellach gan staff y cyngor. Er gwaethaf y gyfradd ymateb isel, rhoddodd crynodeb o farn yr holl ymatebwyr gipolwg i'r cyngor o farn rhanddeiliaid a rhoddodd fewnwelediad a fyddai'n helpu i lunio blaenoriaethau cynllun cyflawni blynyddol y flwyddyn nesaf (2023/24) a chynlluniau gwasanaeth cysylltiedig.

Dywedwyd o ddadansoddiad yr arolwg cyhoeddus bod diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol o'r hyn a wnaeth y cyngor a bod angen gwneud mwy i gyfathrebu gwybodaeth mewn ffordd sy'n haws i bobl ei deall fel eu bod yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu. Yn ogystal, byddai cydweithwyr y cyngor yn elwa o gyfathrebu rheolaidd am berfformiad cyffredinol y cyngor. Roedd y materion hyn yn cael eu datblygu drwy strategaeth cyfranogiad y cyhoedd newydd y cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd M. Hooper ei bod yn ymddangos nad oedd newidiadau y gofynnwyd amdanynt yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi'u gwneud, a oedd yn ymwneud â thudalen 9 ac a oedd yn egluro canlyniad cais o £14.03 miliwn ar gyfer dociau'r Barri. Mewn ymateb, dywedodd y cyfarwyddwr y cytunwyd ar set ddiwygiedig o eiriau ond nad oeddent wedi'u hymgorffori rywsut. Felly, gofynnir i'r Cabinet gytuno ar adolygiad i dudalen 9 yn

No.

amlinellu na fyddai'r cyngor yn gwybod a oedd wedi llwyddo i sicrhau bron i £19.9 miliwn i drawsnewid glannau dociau'r Barri tan hydref 2022.

Gwnaeth y Cynghorydd Hooper sylw hefyd ar y ffordd yr oedd y cyngor yn cyfathrebu â'r cyhoedd ac yn arbennig ei ddiddordeb yn yr adroddiad. Anogodd fod yn ofalus ac i beidio â thybio bod problem cam-gyfathrebu, yn enwedig pan gododd pobl faterion yr oeddent yn credu eu bod yn wir. Roedd hyn yn rhywbeth y gallai'r cyngor fyfyrno arno ar gyfer y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E. Goodjohn at y ddogfen ymgynghori yn Atodiad B, a oedd yn amlinellu mai dim ond 125 o ymatebion gan y cyhoedd a dderbyniwyd, yn ogystal ag 20 o ymatebion gan aelodau o staff. Holodd y Cynghorydd Goodjohn a oedd teimlad ei fod yn cynrychioli cofnod gwir a chywir o farn y staff a'r cyhoedd. Yn ateb, dywedodd y cyfarwyddwr fod y gyfradd ymateb yn uwch nag y bu mewn blynyddoedd blaenorol ar gyfer ymarferion tebyg, ond cydnabuwyd ei fod yn isel o'i gymharu â phoblogaeth gyffredinol Bro Morgannwg. Yr her oedd bod y cyngor yn ceisio ymgynghori ar ddogfen eang ei chwmpas, ac a oedd yn cwmpasu'r holl waith a'r gweithgareddau a gyflawnwyd. Felly, roedd yn anodd i bobl ymateb i ymgynghoriad corfforaethol a oedd yn broses wahanol i ymgynghori ar faterion penodol iawn yr oedd pobl yn teimlo eu bod yn fwy perthnasol iddynt. Yn gyffredinol, yr hyn a fyddai'n bwysicach oedd yr ymgynghori ac ymgysylltu parhaus a fyddai'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn ar feysydd penodol yr oedd pobl am gymryd rhan ynddynt. Byddai hyn yn natur fwy cynrychioliadol o ymgynghori, a allai gynnwys arolwg barn y cyhoedd.

Adeisiodd aelodau'r pwyllgor sylwadau yn ymwneud â phobl yn teimlo bod eu barn wedi'i gwerthfawrogi a'i hystyried, a oedd yn rhywbeth y gallai'r cyngor fyfyrno arno ymhellach.

Wedi hynny, y Pwyllgor

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD Drafft Terfynol Hunan-Asesiad Blynyddol Bro Morgannwg yn cael ei gymeradwyo, yn amodol ar y newidiadau teipograffigol i Dudalen 9.
- (2) BOD y Cabinet yn cael cais i dderbyn y newidiadau teipograffigol i Dudalen 9.
- (3) BOD y Cabinet yn cyfeirio'r adroddiad ymlaen at y Cyngor Llawn (9 Tachwedd 2022) i gael ei gymeradwyo'n derfynol.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Er mwyn ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) I ofyn i'r Cabinet i gymeradwyo'r newidiadau teipograffigol i Dudalen 9.
- (3) Fel y gall yr Hunan-Asesiad Terfynol gael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 9 Tachwedd 2022.

389 DIWEDDARIAD AR YR ARCHWILIAD O DDATGANIAD CYFRIFON 2021/22 (CAC) - .

Roedd yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2021/22 Bro Morgannwg yn mynd rhagddo'n dda, gyda'r rhan fwyaf o'r profion wedi'u cwblhau a rhai materion yn destun ymchwiliad o hyd.

Bu oedi cyn cwblhau archwiliad Bro Morgannwg nes bod y materion sy'n ymwneud ag asedau seilwaith wedi'u datrys a disgwyliwyd eglurhad pellach ym mis Tachwedd 2022.

Roedd yr archwiliad o'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir bellach wedi'i gwblhau a'r cyfrifon wedi'u cymeradwyo.

Roedd yr archwiliad o gyfrifon Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol y Fro a'r Cymoedd 2021/22 bellach wedi dechrau ac roedd yn mynd rhagddo'n dda.

O ran y sefyllfa gydag asedau seilwaith, roedd dealltwriaeth bod papur wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol a oedd yn nodi cynigion ynghylch nodyn datgelu ychwanegol ar gyfer asedau seilwaith ac ynghylch dadgydnabod. Nid oedd y bwrdd yn cefnogi elfen dadgydnabod y papur ond roedd o'r farn y byddai nodyn datgelu yn cael ei dderbyn a'i roi yn y cod. Roedd hyn wedi cael ei ddiystyru'n statudol yn yr Alban ac yn Lloegr, tra oedd Llywodraeth Cymru yn edrych ar ddeddfwriaeth. Felly, roedd disgwyl i Lywodraeth Cymru ymestyn yr amserlenni.

Gwnaeth y pwyllgor gais i adroddiadau yn y dyfodol gynnwys mwy o fanylion a gwybodaeth am y materion cysylltiedig.

Wedi hynny, y Pwyllgor

PENDERFYNWYD - BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

390 ADOLYGIAD O DWYLL A LLYWODRAETHU FEL RHAN O ARCHWILIAD ALLANOL GAN ARCHWILIO CYMRU (CAC) -

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 yr adroddiad, a oedd yn darparu copi manwl o ymateb y cyngor i Archwilio Cymru yn gweithredu fel archwilydd allanol y cyngor, a oedd yn ymwneud â'r gofynion a nodir yn Safon Archwilio Ryngwladol (DU ac Iwerddon) 240 – Cyfrifoldebau'r archwilydd mewn perthynas â thwyll mewn archwiliad o ddatganiadau ariannol.

No.

Dywedwyd mai Atodiad A oedd ymatebion y cyngor i'r ymholiadau penodol a wnaed gan yr archwilydd allanol, Archwilio Cymru, iddo gael tystiolaeth o sut yr oedd y rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn cyflawni eu cyfrifoldebau. Roedd Atodiad 1 y ddogfen yn ymwneud â thwyll, a oedd yn rhoi cadarnhad nad oedd unrhyw faterion twyll penodol wedi'u nodi yn ystod 2021/22 yn ymwneud â'r datganiadau ariannol. Ystyriwyd hefyd bod adroddiad barn flynyddol y Pennaeth Archwilio yn rhoi sicrwydd boddhaol mewn perthynas â'r systemau ariannol allweddol.

Gwnaeth aelodau'r pwyllgor sylwadau ar berchnogaeth a phwrpas yr adroddiad, ac yn arbennig ynghylch "trydedd linell amddiffyn" neu natur gweithgarwch archwilio mewnol ac a oedd hynny'n darparu'r cwmpas a'r ddealltwriaeth i ddangos bod y cyngor yn bodloni'r holl reoliadau. Yn ateb, dywedodd y Pennaeth Cyllid y gofynnwyd i'r pwyllgor gymeradwyo'r ymateb, ac y byddai pwrpas adroddiadau yn y dyfodol yn cael eu hegluro'n gliriach. O ran gwaith archwilio a sicrwydd mewnol, roedd yn deg dweud bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar y drydedd linell amddiffyn ac yn canolbwyntio llai ar yr amgylchedd rheoli ehangach i atal twyll. Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod sylwadau'r Pennaeth Cyllid yn gywir. Cyfeiriodd at ei adroddiad blynyddol, a oedd yn ystyried y gwaith twyll a wnaed, ond roedd yn anodd rhoi sicrwydd llawn. Roedd y lefel gyntaf o gyfrifoldeb am atal a chanfod twyll gyda rheolwyr, ond roedd gan archwilwyr mewnol rôl o ran ymchwiliadau i dwyll.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol, wrth gyfeirio at ymholiadau rheolwyr yn ymwneud â thwyll, mai'r prif ymateb oedd na nodwyd unrhyw faterion twyll penodol yn ystod 2021/22 sy'n ymwneud â'r datganiadau ariannol. Yr oedd hyn, cyn belled ag yr oedd yn y cwestiwn, yn gywir.

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad, yr oedd

PENDERFYNWYD - BOD canfyddiadau'r adolygiad o Dwyll a Llywodraethiant fel rhan o'r archwiliad allanol gan Archwilio Cymru yn cael eu cymeradwyo.

Y rheswm dros y penderfyniad

O ystyried canfyddiadau'r adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru.

391 DIWEDDARIAD CHWARTER 2: AMSERLEN RHAGLEN WAITH ARCHWILIO CYMRU 2022/23 – CYNGOR BRO MORGANNWG (CAC) -

Roedd yn ofynnol i Archwilio Cymru, fel yr archwilydd enwebedig ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg, wneud gwaith mewn perthynas â'r canlynol, y manylwyd arno yng Nghynllun Archwilio Blynyddol Bro Morgannwg 2022:

- Archwiliad o ddatganiadau ariannol
- Gwerth am arian
- Gwelliant parhaus
- Egwyddor datblygu cynaliadwy

No.

Roedd Atodiad A i'r adroddiad yn amlinellu cynnydd Chwarter 2 ar raglen waith ac amserlen Archwilio Cymru yn unol â Chynllun Archwilio Blynyddol Bro Morgannwg 2022/23.

Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu a nodi'r cynnydd a wnaed ar raglen waith archwilio Bro Morgannwg fel yn Chwarter 2 ac, ar ôl ei ystyried, cyfeirio'r adroddiad at y Cabinet i'w arolygu.

Wedi ystyried yr adroddiad, yr oedd

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.
- (2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Cabinet i'w oruchwylio.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Er mwyn ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er mwyn galluogi goruchwyliaeth y Cabinet o'r rhaglen archwilio.

392 DIWEDDARIAD CHWARTER 1 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (CAC) -

Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg i'r aelodau o'r gofrestr risg gorfforaethol ar gyfer Chwarter 1 (Ebrill 2022 – Mehefin 2022). Ymgorfforwyd dadansoddiad risg yn yr Adroddiad Cryno Risg Gorfforaethol yn Atodiad A. Roedd hyn yn galluogi swyddogion ac aelodau i nodi ac asesu tueddiadau a natur drawsbynciol risgiau gyda'r gallu i dreiddio i fanylion risgiau yn ôl yr angen.

Ar ddiwedd Chwarter 1, dywedwyd bod cyfanswm o 94% (314) o gamau gweithredu yn wyrdd (ar y trywydd iawn / wedi'u cwblhau) a dyrannwyd statws oren i 1.8% (6) ar gyfer mân lithriad a dyrannwyd statws coch i 4.2% (14) i adlewyrchu llithriad. Roedd yr Adroddiad Cryno Risg Gorfforaethol ynghlwm yn Atodiad A. Roedd y Gofrestr Risg Gorfforaethol fel y'i cyhoeddwyd yn llawn yn Atodiad B, a oedd yn amlinellu natur pob un o'r risgiau corfforaethol yn llawn.

Bu rhai symudiadau mewn statws risg yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn. O ran cyfeiriad, roedd y rhan fwyaf o risgiau ar y gofrestr wedi cadw sefyllfa sefydlog, ac eithrio'r risgiau gweithlu sy'n ymwneud ag ad-drefnu ysgolion, sydd wedi cynyddu, a'r risgiau diogelwch gwybodaeth, COVID-19, trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), a oedd wedi gostwng dros y cyfnod.

O ran y cyfeiriad a ragwelwyd, rhagwelwyd y byddai risgiau newid deddfwriaethol, diwygio llywodraeth leol ac iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn lleihau dros amser. Rhagwelwyd y byddai risgiau ail-lunio gwasanaethau, Prosiect Sero, bregusrwydd y farchnad a rheoli galw i gyd yn cynnal llwybr ar i fyny.

No.

Awgrymwyd bod y prif risgiau sy'n gysylltiedig â risgiau'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a WCCIS wedi lleihau yn ystod y chwarter ac argymhellodd yr adroddiad y dylid tynnu'r ddwy risg oddi ar y gofrestr ac, yn hytrach, y dylid cadw trosolwg o'r risgiau hyn ar lefel gwasanaeth.

O ran y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, roedd gan y pwyllgor rai amheuon ynghylch hynny'n cael ei dynnu oddi ar y gofrestr, o ystyried pryderon ynghylch dileu cyllid grant ac effaith pwysau cyllidebol. Roedd y pwyllgor yn cytuno y gallai risg WCCIS gael ei thynnu oddi ar y gofrestr.

Dyweddodd Mr M. Evans (aelod lleyg) am y gostyngiad yn y risg o amgylch diogelwch gwybodaeth, o ystyried bod y rhan fwyaf o sefydliadau yn ystyried bod mwy o debygolrwydd o ymosodiadau seiber. Mewn ymateb, dywedodd y cyfarwyddwr y bu llawer o drafod ar hynny, a bod y gostyngiad yn adlewyrchu gwelliannau sylweddol mewn rhai o'r rheolaethau yn ogystal â'r buddsoddiadau a wnaed mewn offer i atal ymosodiadau seiber.

Holodd Mr M. Evans hefyd ynghylch lefel yr wybodaeth am gynnydd mewn perthynas â'r risgiau â statws coch. Mewn ymateb, dywedodd y cyfarwyddwr y gallai'r pwyllgor wneud rhywfaint o waith ffocws ar gyfer y diweddariad nesaf, yn enwedig mewn perthynas â Phrosiect Sero a diogelwch gwybodaeth.

Dyweddodd y Cynghorydd E. Goodjohn y gallai fod mwy o fanylion am ragolygon y dyfodol. Dywedodd y cyfarwyddwr ei bod yn bwysig cofio bod y gofrestr risg yn rhoi sicrwydd a'i bod yn fecanwaith a ddefnyddir i reoli risgiau. Roedd hyn yn golygu ei fod yn adroddiad hanesyddol a oedd yn edrych yn ôl. Fodd bynnag, roedd fframwaith ar waith ar gyfer rheoli risgiau ac ar gyfer rhagweld, ond roedd her wrth wneud yr wybodaeth mor gyfredol â phosibl. Roedd ymrwymiad i leihau'r oedi.

Holodd Mr N. Ireland (aelod lleyg) am y cysylltiadau a'r rhyngweithiadau rhwng y gofrestr a gwaith archwilio mewnol. Mewn ymateb, cyfeiriodd y cyfarwyddwr at y Datganiad Llywodraethu Blyneddol, a oedd yn fecanwaith sicrwydd allweddol. Byddai hynny'n cynnwys gwaith rheolaidd gyda'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran adolygu'r rhaglen archwilio fewnol a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. O'i safbwynt ef ac mewn perthynas â'r defnydd o'r gofrestr risg, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod elfen â'r pennawd rheoli risg yn y cynllun archwilio mewnol. Byddai hyn yn cynnwys adolygu sampl o risgiau corfforaethol i gadarnhau eu bod wedi'u rheoli'n briodol, a bod y cynnydd wedi'i adrodd yn gywir. Yn ogystal, byddai archwilwyr mewnol yn cael golwg rheolaidd ar adroddiadau diweddarau'r gofrestr risg, a byddai deialog reolaidd gyda'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol ynghylch unrhyw agweddau penodol yr oedd angen i'r archwilwyr mewnol ganolbwyntio arnynt.

Holodd Mr Ireland ymhellach sut y dewiswyd archwiliadau ac a oedd gan y pwyllgor rôl yn y modd y dewiswyd yr archwiliadau hynny. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod yr archwilwyr wedi dewis pa feysydd yr oedd angen eu hadolygu, ond y gallai'r pwyllgor hefyd awgrymu meysydd penodol yr oedd am eu hystyried.

Wedi hynny, yr oedd

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD sefyllfa Chwarter 1 o ran risgiau corfforaethol (Ebrill 2022 - Mehefin 2022) fel yr amlinellir yn yr Adroddiad Cryno ar Risgiau (Atodiad A) yn cael ei nodi.
- (2) ei FOD yn cael ei argymhell i'r Cabinet waredu risg System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) o'r Gofrestr a gofyn i'r Cabinet dderbyn cynnwys risg Costau Byw ac ail-fframio'r risg o Gynaliadwyedd Amgylcheddol i Brosiect Sero ar y Gofrestr.
- (3) BOD sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried a'u cymeradwyo yn y cyfarfod pan fydd y Cabinet yn ystyried adroddiad ar Gofrestr Risgiau Corfforaethol Chwarter 1.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1a2) Rhoi sylw i adroddiad diweddar Cofrestr Risg Chwarter 1 a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(3) Ar y cais i ystyried sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pan gyflwynir sefyllfa Chwarter 1 y Gofrestr Risg i'r Cabinet.

393 CYNNYDD YN ERBYN Y CYNLLUN MEWNOL AR SAIL RISG 2022-23 (PGAMR) -

Roedd manylion y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2022-23 a gymeradwywyd yn Atodiad A yr adroddiad. Dangosodd fod deg adolygiad wedi'u cwblhau, saith gyda barn archwilio, tra oedd pum adroddiad wedi'u cyhoeddi ar ffurf ddrafft ac roedd 18 o adolygiadau ar y gweill.

Yn seiliedig ar asesiad o gryfderau a gwendidau'r meysydd a archwiliwyd trwy brofi effeithiolrwydd yr amgylchedd rheolaeth fewnol o'r saith archwiliad a gwblhawyd, rhoddwyd barn archwilio o sicrwydd sylweddol i dri archwiliad a barn o sicrwydd rhesymol i'r pedwar archwiliad arall.

Hyd yn hyn, roedd 12 o argymhellion wedi'u gwneud i wella'r amgylchedd rheoli. Roedd y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r rhain wedi'i gynnwys mewn adroddiad monitro argymhellion ar wahân, a gyflwynwyd i'r pwyllgor hefyd.

Roedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol wedi bod yn llwyddiannus yn ddiweddar wrth recriwtio saith aelod newydd o staff. Roedd hwn yn gam cadarnhaol, ond, yn y tymor byr, nes bod y staff newydd wedi'u hyfforddi ac yn gallu cyfrannu'n llawn at gyflawni'r cynllun, roedd effaith negyddol o ran cynhyrchiant cyffredinol y tîm oherwydd y cymorth yr oedd ei angen arnynt. O ganlyniad, roedd rhai archwiliadau wedi'u dyrannu i Wasanaethau Archwilio Mewnol Partneriaeth Archwilio'r De-orllewin i'w cwblhau ar ran y Gwasanaeth

No.

Archwilio Mewnol Rhanbarthol i gynorthwyo wrth sicrhau bod digon o sylw i farn archwilio diwedd blwyddyn gael ei darparu.

Dywedwyd wrth y pwyllgor bod gwaith archwilio wedi'i ddyrannu i Bartneriaeth Archwilio'r De-orllewin yn ymwneud â Phrosiect Sero, newid hinsawdd ac effeithlonrwydd ynni. Roedd hyn oherwydd y byddai Partneriaeth Archwilio'r De-orllewin yn gallu dod â gwybodaeth allanol nad oedd ar gael i'r gwasanaeth archwilio mewnol. Roedd posibilrwydd hefyd i Bartneriaeth Archwilio'r De-orllewin wneud rhywfaint o waith adolygu sy'n ymwneud â chaffael a rheoli prosiectau.

Cododd Mr N. Ireland (aelod lleyg) nifer o bwyntiau ynghylch Atodiad A ac yn benodol at y ffaith bod y gwaith yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na chanolbwyntio ar allbwn:

- Cyfeiriad 10, Newid Hinsawdd ac Effeithlonrwydd Ynni – mwy o naratif ynghylch cynnydd i sicrhau bod cynlluniau ar waith i gyflawni'r rhaglen erbyn 2030.
- Cyfeiriad 8, Rheoli Prosiectau a Rhaglenni – eto mwy o naratif ynghylch cynnydd sydd hefyd sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu.
- Cyfeiriad 22, Cwmni Arlwy – rhagor o wybodaeth am ffocws penodol yr adolygiad hwnnw.

Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd, eglurodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod yr wybodaeth yn yr atodiad yn ymwneud â chwmpas cychwynnol y gwaith, ac y byddai mwy o wybodaeth yn cael ei darparu ar gyfer diweddariadau yn y dyfodol.

Dywedodd Mr M. Evans (aelod lleyg) nad oedd trosolwg o'r archwiliadau a gwblhawyd. Mewn ymateb, dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y byddai manylion fel arfer yn cael eu darparu i'r pwyllgor pe bai adroddiad sicrwydd cyfyngedig. Felly, byddai'r pryderon a'r mesurau gwella y cytunwyd arnynt yn cael eu hamlygu i'r pwyllgor. Roedd y pwyllgor o'r farn y byddai adroddiad cryno sy'n ymwneud â chanlyniadau adolygiadau archwilio a gwblhawyd yn ddefnyddiol, gan y byddai'n cynyddu lefel y sicrwydd a ddarperir.

Wedi hynny, yr oedd

PENDERFYNWYD -

- (1) NODI cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Blynyddol Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2022-23.
- (2) BOD diweddariadau yn y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth gryno ychwanegol yn ymwneud â chanlyniadau adolygiadau archwilio wedi'u cwblhau.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

394 MONITRO ARGYMHELLION (PGAMR) -

Nodwyd manylion datganiad sefyllfa o ran argymhellion archwilio mewnol a wnaed, a weithredwyd ac sydd heb eu gweithredu hyd at 30 Medi 2022 yn Atodiad A i'r adroddiad. Gwnaed cyfanswm o 183 o argymhellion i wella amgylchedd rheoli'r meysydd a adolygwyd yn ystod 2021/22 a hyd yn hyn roedd 12 o argymhellion wedi'u gwneud yn 2022/23.

Dim ond un argymhelliad a wnaed yn 2021/22 oedd heb ei dderbyn gan y maes gwasanaeth; roedd hwn yn argymhelliad blaenoriaeth isel a chynigiodd y rheolwr ateb arall.

O'r argymhellion a wnaed yn 2021/22, roedd naw wedi mynd y tu hwnt i'w dyddiad gweithredu ac felly nid oeddent wedi'u cwblhau a byddent yn parhau i gael eu hela; nid oedd y dyddiad targed ar gyfer 33 o argymhellion wedi'i gyrraedd eto.

O'r 12 argymhelliad a wnaed hyd yma yn 2022/23, roedd pump wedi'u gweithredu ac roedd gan saith ohonynt ddyddiad targed yn y dyfodol.

Nid aethpwyd ar drywydd argymhellion a wnaed mewn adroddiadau sicrwydd cyfyngedig yn unigol, ond cawsant eu hadolygu yn ystod yr archwiliad dilynol arfaethedig o'r maes gwasanaeth hwnnw.

Roedd yr wybodaeth yn Atodiad A i'r adroddiad wedi'i chasglu o system feddalwedd archwilio mewnol y cyngor. Gofynnwyd am farn y pwyllgor ynghylch y cynnwys a'r fformat a ddarparwyd ac, unwaith y byddai adborth gan yr holl bwyllgorau llywodraethu ac archwilio o fewn y maes gwasanaeth rhanbarthol wedi'i dderbyn, byddai adroddiad safonol yn cael ei gomisiynu gan ddarparwr y feddalwedd i symleiddio'r broses o gynhyrchu'r wybodaeth.

Roedd y pwyllgor o'r farn y dylai'r adroddiad gynnwys mwy o wybodaeth am ganlyniadau a chynnydd yr argymhellion yn dilyn adolygiad archwilio, gyda phwyslais arbennig yn cael ei roi ar ddarparu mwy o wybodaeth ar gyfer argymhellion a oedd yn hwyr yn cael eu cwblhau.

Trafodwyd hefyd amllder yr adroddiad i'r pwyllgor, a chytunwyd y byddai adroddiad diweddarau chwarterol yn ddigonol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, roedd

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiad diweddarau bob tri mis.

(2) BOD adroddiadau diweddarau yn y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth gryno ychwanegol yn ymwneud â chanlyniadau a chynnydd argymhellion yn benodol sy'n ymwneud ag unrhyw argymhellion hwyr.

Y rheswm dros y penderfyniad

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

395 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL WEDI'I DIWEDDARU (PGAMR) -

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i sicrhau bod y pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i bob agwedd ar ei swyddogaethau craidd, roedd y flaenraglen waith a oedd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad wedi'i chynhyrchu ac roedd yn cyd-fynd â chylch gorchwyl y pwyllgor.

Roedd y flaenraglen waith wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau yr oedd eu hangen i gyflwyno gorchwyl y pwyllgor o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) newydd ac i gynnwys eitemau y gofynnwyd amdanynt yn flaenorol gan aelodau'r pwyllgor.

Gofynnwyd i aelodau'r pwyllgor nodi bod y Datganiad Cyfrifon Archwiliedig a'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol i fod i gael eu cyflwyno gerbron y cyfarfod hwn. Fodd bynnag, o ganlyniad i drafodaethau cenedlaethol parhaus rhwng Archwilio Cymru a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, ni ellid cymeradwyo'r cyfrifon. Nid oedd yr eitemau hyn wedi'u haildrefnu yn Atodiad A gan nad oedd yr amserlen yn hysbys. Mae'n bosibl y byddai angen cyfarfod ychwanegol.

Gofynnwyd i'r pwyllgor nodi'r flaenraglen waith a nodi a oedd angen unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Wedi ystyried yr adroddiad yr oedd

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD y Flaenraglen Waith yn cael ei nodi.
- (2) BOD y rhestr o eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf, 12 Rhagfyr 2022 yn cael ei gymeradwyo.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1a2) Sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymwybodol o gynnydd y rhaglen waith arfaethedig ac yn cael gwybod amdano.